**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

25/10/2023

Annwyl Bwyllgor,

Mae'n dda gennyf rannu'r Adroddiad Sicrwydd cyntaf imi ei gyhoeddi fel Comisiynydd y Gymraeg â chi. Byddaf yn cyhoeddi'r Adroddiad Sicrwydd yn flynyddol ac ynddo rhoddaf fy marn ar gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau iaith. Yn gyffredinol, er bod lefelau cydymffurfiaeth yn gyffredinol wedi gwella, yn enwedig ymysg cyrff sydd wedi dod o dan Safonau'r Gymraeg ers amser, noda'r adroddiad fod angen mynd i'r afael â'r her o greu awyrgylch lle gellir defnyddio'r Gymraeg yn naturiol bob dydd. Mae hyn yn golygu gwella'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig ar lafar i bobl, boed hynny dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Er mwyn gwireddu hyn, ac er mwyn i bobl allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol bob dydd, mae'n rhaid i sefydliadau cyhoeddus, a sefydliadau eraill yng Nghymru, ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau, gweithredu'n fewnol a chynllunio polisi sy'n cefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Elfen sy'n peri pryder imi, ac elfen y cyfeiriwyd ato eisoes yn fy Adroddiad Blynyddol, yw bod 18% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd gennyf wedi cael profiad o rywun yn eu hatal rhag siarad Cymraeg yn y 12 mis diwethaf. Mae'r Adroddiad Sicrwydd yn manylu ar y ffaith fod y ganran yn uwch ar gyfer pobl rhwng 16 a 34 mlwydd oed, gyda 29% o'r sampl yn nodi eu bod wedi cael profiad o rywun yn eu hatal rhag siarad Cymraeg. Mae'r erydiad cyson ym mhrofiadau siaradwyr Cymraeg o ddydd i ddydd ac ymagwedd negyddol tuag at ddefnyddio'r iaith yn rhwym o effeithio ar hyder siaradwyr Cymraeg, ac yn ei dro yn siŵr o gael effaith ar lefelau defnyddio'r Gymraeg.

Edrychaf ymlaen at drafod canfyddiadau'r Adroddiad Sicrwydd 2022-23 â chi ymhellach, yn ogystal â'm Hadroddiad Blynyddol 2022-23 â chi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Tachwedd.  Rwy’n atodi copi o’r Adroddiad Blynyddol 2022-23 yn ogystal, er y gwn eich bod eisoes wedi derbyn copi ohono trwy law Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae croeso ichi gysylltu os hoffech ragor o wybodaeth am y dogfennau hyn ymlaen llaw i 8 Tachwedd.

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Amg.